

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
9 Ebrill 2018 yn Festri Capel Llwynpiod am 8 o'r gloch.

Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday 9 April 2018 at Llwynpiod Chapel Vestry, at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol ac estynnwyd llongyfarchiadau i Cyng Daniel Thomas ar ei briodas yn ddiweddar.

The Chair welcomed everyone to the monthly meeting, and congratulations were extended to Cllr Daniel Thomas on his recent marriage.

Presennol/Present

Cyng Paul Rooke (Gadair/Chair), Gwilym Evans, Gerwyn Ebenezer, Emyr Jones, Gwenfair Owen, Dafydd Morse, Daniel Thomas, Beryl Evans, Eirian Jones a Cyng Rhian Turner.

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng John Evans, Myrddin James a Cyng Rhodri Evans

Datgan Diddordeb/Declaring an Interest – Neb/No one

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Daniel Thomas.
Cllr Beryl Evans proposed accepting the Minutes of the last meeting, and this was seconded by Cllr Daniel Thomas.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from the Minutes

- Gwaith o ddodi byffer ar glwyd parc Llangeitho wedi'u gwmbhau, diolch i Cyng Rhian Turner am gynorthwyo.
- *The work of placing a buffer on Llangeitho park's gate has been completed. Thanks to Cllr Rhian Turner for her assistance.*
- Yn dilyn gwneud y gwaith o adnewyddu'r boards ar cysgodfan bws Stags Head, soniwyd bod angen cot o baent ar yr adeilad, clerch i gysylltu â Mr Maldwyn Evans, Clement i archebu'r paent addas i'r adeilad gan gynnwys archebu paent i'r wal ar gylchfan Llangeitho, cytunwyd ar baent gwyn ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Paul Rooke.
- *Following the replacement of fascia boards at Stags Head bus shelter, it was noted that the shelter could do with a lick of paint. Clerk to contact Mr Maldwyn Evans, Clement, to order suitable paint for the bus shelter and also to order paint for the wall next to Llangeitho roundabout; white paint was suggested; this was proposed by Cllr Beryl Evans and seconded by Cllr Paul Rooke.*
- Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Cyng Rhodri Evans bod jetter a pedair fan wedi bod yn gweithio'n galed i waredu'r dwr oedd yn cronni ar y ffordd ar bwys yr Eglwys Llangeitho.
- *Cllr Rhodri Evans has sent word that a jetter and four vans had been working hard to get rid of the water that has been accumulating on the road near Llangeitho's church.*
- Cyng Rhodri Evans i wneud ymchwil ar sefyllfa'r dwr yn cronni rhwng Parciau Gwynion, Rhydypany, Llangeitho a Fronfelen.
- *Cllr Rhodri Evans to make enquiries about the situation of water accumulating between Parciau Gwynion, Rhydypany, Llangeitho and Fronfelen.*
- Tyllau ar ben lôn Cymorthfa/Pentre Padarn, Llwynpiod wedi'u llenwi yn foddhaol.
- *Potholes at the top of Cymorthfa/Pentre Padarn lane, Llwynpiod, have been filled satisfactorily.*
- Cadarnhaodd y Clerch fod llythyr efo llofnodion y Cynghorwyr ynglŷn â'r Comisiwn Ffinniau wedi'u drosglwyddo i'r swyddfa ynghyd a'r pecyn o dros 260 o lythyron wedi'u llofnodi gan aelodau'r gymuned i gefnogi bod Cyngor Cymuned Llangeitho am sefyll fel y mae efo Llanddewi Brefi ac nid mynd yn rhan o Gyngor Tref Tregaron. Diolchwyd i bawb am ei cefnogaeth dros yr amser yma.
- *The clerk confirmed that a signed letter from the Councillors to the Boundaries' Commission had been sent to its office, together with a package of over 260 letters signed by residents of the community in support, stating that Llangeitho Community Council wishes to remain as it is with Llanddewi Brefi and does not wish to become a part of Tregaron Town Council. Everyone was thanked for their support during this time.*
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Jon Halle yn cadarnhau mae Elly Foster o 'Grannell Community Energy' sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r arian pan fydd ar gael am brosiect melyn wynt Goyallt, Llangeitho. Eglurwyd bod y twrbein ar fferm Goyallt wedi dechrau cynhyrchu ym mis Mawrth 2017 a bod y flwyddyn ariannol cyntaf wedi dod i ben ym mis Rhagfyr 2017. Felly, gan nad oedd popeth yn rhedeg yn foddhaol yn y misoedd cyntaf, y flwyddyn lawn gyntaf fydd diwedd 2018 a gobeithir gwneud y cyfraniad cyntaf i'r gymuned yn Gwanwyn 2019.
- *Email received from Jon Halle confirming that Elly Foster, from 'Grannell Community Energy', is responsible for distributing the money that will be available from the wind turbine project at Goyallt, Llangeitho. It was clarified that the wind turbine at Goyallt had started producing energy in March 2017 and*

that its first financial year had come to an end in December 2017. Therefore, because things had not gone to plan in the early months, the first full financial year would be at the end of 2018, and it is hoped to make the first financial contribution to the community in the Spring of 2019.

- *Darllenwyd e-bost oddi wrth Haydn Lewis, Ceidwad Hawliau Tramwy a Chefn Gwlad yn cadarnhau bod y Cyngor Sir wedi delio a phroblem y gwlyborwch a phwddel wrth ddod at y bont yn Rhydypandy ac ni fyddant yn gwneud unrhyw waith ar y bont ei hunan ar hyn o bryd ond mi fyddant yn cadw llygad cyson ar ei chyflwr. Soniwyd bod yna ddwy styllen wedi torri ar y bont yn barod, gofynnir i'r Clerc ofyn i Mr Lewis, pwy fydd yn gyfrifol pe tae damwain yn digwydd oherwydd y styllod wedi torri.*
- *Email read out from Haydn Lewis, Keeper of Countryside and Rights of Way, confirming that the County Council had dealt with the problem of mud, and so on, as you approach the bridge at Rhydypandy, and that they will not be doing any work on the bridge itself at the moment, but would be keeping a regular eye on its condition. It was noted that two planks were broken on the bridge already; the clerk was requested to ask Mr Lewis who would be responsible if an accident occurred because of the broken planks.*
- *Soniwyd fod y pedair coeden oedd wedi dechrau cwmpo ar gaeau Maeshelen, Stags Head wedi'u torri lawr gan y tenantiaid yn barod.*
- *It was noted that the four trees which had started to fall at Maeshelen, Stags Head, had been cut down by the tenants already.*
- *Soniwyd nad oedd yna waith wedi'u wneud ar culvert oedd wedi rhoi fewn ar yr ochr dde wrth droi lan o Parcrhydderch, Llangeitho, SY25 6QG lan am Bronaeron, Llangeitho, SY25 6QQ hyd yma.*
- *It was noted that no work had been done on the culvert on the right as you turn up from Parcrhydderch, Llangeitho, SY25 6QG towards Bronaeron, Llangeitho, SY25 6QQ so far.*

Gohebiaeth/Correspondence

Dim i'w gofnodi.

Nothing to report.

Cyfrifon/Accounts

- *Cyflog y Clerc/Clerk Salary (2 mis/months) £192.92*

Cynnig/Proposed: Cyng Dafydd Morse

Eiliwyd/Seconded: Cyng Gwilym Evans

Cyngor Sir Ceredigion/Ceredigion County Council

Dim i'w gofnodi.

Nothing to report.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

- *Enwebwyd Cyng Beryl O Evans fel cynrychiolydd Cyngor Cymuned Llangeitho ar bwyllgorau Un Llais Cymru.*
- *Cllr Beryl O Evans was nominated as Llangeitho Community Council's representative on the committees of One Voice Wales.*
- *Cytunwyd i drafod ymhellach a fyddai cynigion i fynd ymlaen i Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru, yng nghyfarfod mis Mai.*
- *It was decided to discuss again whether the Community Council would be sending motions forward to be considered at the Annual Meeting of One Voice Wales in May.*

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol/Data Protection Regulation

Trafodwyd yn fras y rheol newydd ar gyfer Diogelu Data Cyffredinol a chytunwyd i benodi swyddog diogelu data yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol mis nesaf.

The new law regarding the protection of data was discussed and it was agreed to appoint a data protection officer at the annual general meeting next month.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- *Tyllai yn y ffordd ar ben lon Dolaeron.*
- *Potholes in the road at the top of Dolaeron lane.*
- *Angen sylw ar y drain agored lawr heol Parcrhydderch.*
- *The open drain down Parcrhydderch road needs attention.*

- Soniwyd fod Gareth Davies, Parcrhydderch wedi rhoi darn o dir i Gyngor Sir Ceredigion ond nad yw'r Cyngor Sir wedi dychwelyd i darmacio yn iawn.
- *It was noted that Gareth Davies, Parcrhydderch, had given a piece of land to Ceredigion County Council, but the County Council has not been to tarmac it properly.*
- Culvert rhwng Fronheulog a Glandwr wedi blocio efo cerrig ac angen sylw.
- *Culvert between Fronheulog and Glandwr is blocked by stones and needs attention.*
- Cwynion wedi'u dderbyn oddi wrth deulu Goyallt am ddiffyg gwybodaeth ar wefan y Cyngor Cymuned, Cyng Eirian Jones i gyfieithu'r cofnodion i'r Saesneg. Soniwyd bod Cyngor Tref Tregaron wedi treialu'r app cyfieithu ac nid oedd wedi bod yn llwyddiannus ac ni fyddant yn ei ddefnyddio byth eto.
- *Complaints received from Goyallt family about the lack of information on the website of the Community Council. Cllr Eirian Jones has agreed to translate the Minutes into English. It was noted that Tregaron Town Council had trialled a translating app, but that it had been unsuccessful and they would not be using it again.*
- Yr hen arwydd bys yng nghaeau Cyng Daniel Thomas, gyferbyn a'r Ysgol angen i'w baentio, dim gwrthwynebiad i Cyng Daniel Thomas i'w baentio.
- *The old fingerpost, on the land of Cllr Daniel Thomas, opposite the school in Llangeitho, needs painting; no objections to Cllr Daniel Thomas painting it himself.*
- Nifer fawr o dyllau yn y ffordd lawr o Stags Head heibio'r ddwy Fferm Derlwyn lawr i Cnwc y Barcud, hefyd soniwyd am y dwr oedd yn cronni ar yr un ffordd angen sylw.
- *Very many potholes on the road from Stags Head past the two Derlwyn farms down to Cnwc y Barcud; also it was mentioned that water was accumulating on the same road and that needed attention too.*
- Soniwyd fod ymchwiliad mewn i'r adeiladau anghyfreithlon lawr lon Tŷ Rhos ac yn nwylo'r cyfreithwyr ar hyn o bryd.
- *It was noted that there was an investigation into the illegal buildings down Tŷ Rhos lane; matters are now in the hands of solicitors.*
- Gofynnir i'r Clerc ysgrifennu llythyr o longyfarch ac i ddymuno'n dda i Mr Mike Evans, Plas Newydd a'r teulu am agor y bistro ym Mhenuwch yn ddiweddar.
- *The Clerk was asked to write a letter to congratulate and wish well Mr Mike Evans and the family, Plas Newydd, on opening a bistro in Penuwch recently.*
- Angen glanhau'r cwteri sydd ar y rhiw Llidiart Maen Gwyn am dop y ffordd.
- *There is need to clean the gullies on Llidiart Maen Gwyn hill towards the top of the road.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date and Location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Capel Penuwch ar 14 Mai 2018 am 8 o'r gloch.

The next meeting will be held at Penuwch Chapel Vestry, on Monday, 14 May 2018, at 8p.m.